

Swydd Ddisgrifiad



| | | | |
|---|--|----------------|----------------------------|
| Teitl y Swydd | Athrawon/Tiwtoriaid y Gymraeg ym Mhatagonia | | |
| Lleoliad y Swydd | Patagonia | Lwfans | £750 y mis |
| Yn Atebol i | Y Cydlynnydd Dysgu | Cyfnod y Swydd | Mawrth 2024 – Rhagfyr 2024 |
| Dyddiad Cau | 9 Hydref | | |
| Nod y Swydd | | | |
| <ul style="list-style-type: none">• I ddysgu Cymraeg i amryw o oeddrannau a lefelau yn y cymunedau• I annog dysgwyr i ymuno â'r dosbarthiadau• I gydweithio gyda thiwtoriaid ac athrawon lleol i greu arfer dda• I gydweithio gyda'r cymunedau i adfer yr arferion da o gynnal gweithgareddau cymdeithasol yn yr iaith Gymraeg | | | |
| Cyd-destun y Swydd | | | |

Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut yn cynnig cyfle unigryw i unigolion cymwys ddysgu a datblygu'r Cymraeg yn Nhalaith Chubut, Patagonia. Cynigir cytundebau o Mawrth 2024 tan fis Rhagfyr 2024.

Dyddiad cau ceisiadau ydy'r 9fed Hydref a bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal cyn diwedd mis Hydref. Cynigir swyddi yn ol cytundeb pan cadarnheir ariannu o ran Lywodraeth Cymru i'r Cynllun Dysgu Cymraeg yn 2024.

Darperir llety ar gyfer cyfnod y cytundeb yn ddi-gost i'r ymgeiswyr llwyddiannus gan y cymunedau lleol ym Mhatagonia.

Dylai'r rhai a benodir fod yn hyddysg ym maes dysgu Cymraeg i oedolion neu ym maes addysg feithrin/gynradd. Bydd y rhain yn swyddi datblygu. Ceisiwn unigolion a fydd yn barod i gydweithio a chynghori'r tiwtoriaid lleol a phwyllgorau lleol y dosbarthiadau Cymraeg a threfnu a chydlynu gweithgareddau cymdeithasoli iaith.

Bydd dwy swydd yn cael eu cynnig yn Nyffryn Camwy (Ardal Trelew a'r Gaiman) ac un swydd yn cael ei chynnig yn yr Andes (Ardal Esquel a Threvelin) yn dysgu naill ai plant, oedolion neu'r ddau. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn seiliedig ar argymhellion Adroddiad Blynyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg. Hefyd yn ystod y pandemig roedd diddordeb mawr o tu allan i'r dalaith i ddysgu Cymraef felly mae'r gallu i ddysgu arlein yn fantais.

Prif Dasgau a Chyfrifoldebau

| | |
|---|--|
| 1 | Cydweithio gydag athrawon â thiwtoriaid er mwyn darparu addysgu deinamig a chynorthwyo wrth baratoi deunyddiau at ddefnydd y dosbarth yn ol anghenion lleol. |
| 2 | Rhannu arfer gyfoes ym myd addysg o Gymru gydag athrawon yn y Wladfa er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg fel ail iaith. |
| 3 | Cyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm Cymraeg yn yr ysgolion wrth ystyried eu hanghenion unigryw. |
| 4 | Cydweithio gyda thiwtoriaid/athrawon er mwyn datblygu eu sgiliau proffesiynol a gwella eu sgiliau iaith. |
| 5 | Bod ar gael i athrawon/tiwtoriaid holi ynglyn â materion sydd ynghlwm wrth ddysgu Cymraeg Ail iaith. |
| 6 | Creu dolenni rhwng ysgolion/asiantaethau yng Nghymru a'r Ariannin. |

| | |
|----|---|
| 7 | Hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn y cymunedau lleol trwy drefnu gweithgareddau cymdeithasol a thrwy fynychu digwyddiadau a gwyliau diwylliannol (e.e. sermeoniau, eisteddfodau). eisteddfodau) |
| 8 | Hyrwyddo gwaith y Cynllun yn yr ysgolion a'r dosbarthiadau trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. |
| 9 | Bod yn weladwy o fewn y cymunedau Cymreig fel cynrychiolydd o Gymru. |
| 10 | Unrhyw ddyletswyddau pellach o fewn ffiniau rhesymol sydd yn rhan o'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Wladfa. |

Cysylltiadau Allweddol

Mewnol

- Athrawon eraill o Gymru ym Mhatagonia
- Athrawon a thiwtoriaid o Batagonia yn y Wladfa
- Y Cydlynnydd Dysgu
- Swyddog Prosiect British Council Cymru

Allanol

- Dysgwyr
- Pwyllgorau Lleol
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd
- Rhieni

Amodau

- Cytundeb 10 mis yn dechrau Mawrth 2024 hyd Rhagfyr 2024.
- Hediad o'r Deyrnas Unedig i'r Ariannin ac yna'n ôl i'r Deyrnas Unedig ar ddiwedd cyfnod y cytundeb.
- 2.5 diwrnod y mis (yn ddibynnol ar ddyddiad dechreuad y cytundeb)
- Llety di-dâl wedi ei drefnu gan y cymunedau lleol.
- Lwfans misol o £750 sy'n cynnwys costau teithio lleol.
- Yswiriant meddygol.
- Lwfans adnewyddu fisa.
- Lwfans cyrraedd o £150 a lwfans dychwelyd o £150

Bydd angen gwiriad DBS ar bob Swyddog a gyflogir

Manyldeb Personol

| | Hanfodol | Dymunol | Asesu |
|-----------------------------|---|--|-------------------------|
| Ymddygiadau | Parodrwydd, gallu, brwdfrydedd ac awydd i gyfrannu i lwyddiant addysg Gymraeg a'r gweithgareddau cymdeithasoli iaith ym Mhatagonia | | Cyfweliad |
| Sgiliau a Gwybodaeth | Sgiliau technoleg gwybodaeth: y gallu i baratoi deunyddiau digidol, defnyddio platfformau addysgu, gallu defnyddio Zoom/Meet i ddysgu gwersi arlein, gallu hysbysebu gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol | | Cyfweliad |
| Profiad | <p>Profiad o ddysgu'r Gymraeg, fel ail iaith neu iaith gyntaf i blant, pobl ifanc a/neu yn y sector Cymraeg i Oedolion</p> <p>Profiad o allu dysgu cyrsiau Cymraeg i Oedolion gyda'r cyrsiau a ddefnyddir yn Nghymru: Mynediad y Wladfa, Sylfaen, Canolradd ac Uwch 1 a 2</p> | Profiad o waith cymdeithasoli iaith e.e. Mentrau iaith neu weithgareddau cymunedol | Rhestr Fer a chyfweliad |
| Cymwysterau | Cymwysterau dysgu priodol | Gradd | Rhestr Fer |